

Rhan 2

Gall diffinio ansawdd yn y blynyddoedd cynnar fod yn her oherwydd 'Beth mae ansawdd yn edrych fel' yn gysyniad unigol iawn yn seiliedig ar addysgeg, profiad, hyfforddiant a safbwyntiau personol eraill. Fel tîm, gallwch greu eich gweledigaeth ar gyfer sut mae ansawdd yn edrych. (Bland, 2023). Diben gwella ansawdd yw sicrhau bod pob lleoliad a phob gweithiwr proffesiynol yn ystyried y ffordd orau o greu, cynnal a gwella'r ddarpariaeth er mwyn cynnig dysgu o'r ansawdd uchaf a datblygu profiadau i bob plentyn a'u teuluoedd. (Foundation Years, dim dyddiad). Llwyddir i sicrhau darpariaeth o ansawdd mewn addysg gynnar o ofal plant trwy weithlu sy'n hyderus yn cydweithio, ymgysylltu a theuluoedd, deall pwysigrwydd datblygiad addysgeg a llen, sicrhau disgwyliadau uchel i blant wireddu'r canlyniadau gorau, darparu ymarfer ac addysgu o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth yn ddyddiol i ganlyniadau plant. (Foundation Years, dim dyddiad). At hyn dywed Llywodraeth Cymru (2014) mae darpariaeth o ansawdd uchel o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn cael effaith gadarnhaol a pharhaol ar ganlyniadau plant megis iaith, cyfathrebu a chyrhaeddiad gwybyddol. Datgelodd Munton *et al* (2001) bod mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn cael effaith gadarnhaol ar blant, o ran datblygiad cymdeithasol, iaith a datblygiad gwybyddol. Felly, wrth ddeall beth sy'n cyfrannu tuag at ddarpariaeth o ansawdd uchel, mae'n rhoi dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae ansawdd yn bwysig oherwydd mae'n cael ystod o ganlyniadau i blant, o sicrhau datblygiad gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol a chorfforol iach plant, a helpu nhw cyrraedd cerrig milltir. Fodd bynnag, mae diffyg eglurder ynglŷn â sut mae darpariaeth o ansawdd uchel yn edrych yn ymarferol. (Education Policy Institute, 2018). Mae pwysigrwydd gwella ansawdd ac arweinyddiaeth effeithiol yn eistedd ochr yn ochr a'r pedair egwyddor sylfaenol o fewn y blynyddoedd cynnar, gan weithredu fel llinyn euraidd trwy gydol. (Birth to 5 Matters, 2023). Dawn amlwg y pwysigrwydd o gael lleoliadau o ansawdd uchel i blant, gall lleoliadau o safon leihau'r bwch mewn datblygiad plant a sicrhau bod pob plentyn yn dechrau ysgol gan gyrraedd lefel dda o ddatblygiad. (Kelly, 2016). Mae 'Adeiladu Dyfodol mwy disglair' (Llywodraeth Cymru, dogfen 2013), yn nodi bod lleoliadau plant o ansawdd uchel yn cael dylanwad sylweddol ar ddatblygiad plant a chael effaith fuddiol ar brofiadau bywyd yn y dyfodol. Mae lleoliadau o ansawdd uchel yn cael yr effaith fwyaf positif ar blant, dyma'r lleoliadau sy'n galluogi i gyrraedd eu potensial llawn a'u cefnogi i gyrraedd lefelau

datblygu da. Yn ogystal â lefel dda o ddatblygu mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn caniatáu i blant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau eraill, gan gynnwys sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth, lefelau disgwylledig o ymddygiad mewn amgylchedd ysgol, sgiliau cyfathrebu ac iaith, hyder a hunan barch. (Kelly, 2016). Felly'r pwysigrwydd o gael lleoliadau o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer datblygiad y plentyn. Yn ôl y Comisiynydd Plant Cymru (2023) erthygl 29, 'yr hawl i fod y gorau gallet fod. Rhaid i addysg helpu datblygu sgiliau a ddoniau yn llawn'. Ein rôl fel ymarferydd blynyddoedd cynnar yw cynnig hyn i'r plant.

Mae Graddfa Sgôr Amgylchedd Plentyndod Cynnar (ECERS) yn raddfa sgôr amgylchedd a arweinir gan y prosiect cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd effeithiol. (EPPSE). (Ecersuk, dim dyddiad). Mae ECERS yn offeryn asesu yn y dosbarth sydd wedi'i dylunio i fesur ansawdd y lleoliad ar gyfer babanod a phlant bach, trwy gasglu data trwy arsylwadau dosbarth a chyfweliad staff. (Static Pdesas, dim dyddiad). Mae'r raddfa yn cynnig dull strwythurol o wella ansawdd y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar er mwyn gwella canlyniadau cadarnhaol yn y dyfodol. Mae'r raddfa wedi cael ei defnyddio'n rhyngwladol ac mae'n offeryn a defnyddir yn helaeth i asesu ansawdd o fewn lleoliadau. (Brunsek et al., 2017). Mae'r ECERS yn cynnwys 37 eitem, mae pob eitem yn cael ei graddio ar raddfa saith pwynt. (Brunsek et al., 2017) Mae'r raddfa'n targedu saith categori sef y gofod a'r dodrefnai, trefniadau gofal personol, rhesymu iaith, gweithgareddau, rhyngweithio, strwythur rhaglen a rhieni a staff. (Community University Partnership, dim dyddiad). Serch hynny, mae yna drafodaeth ehangach i'w cael am ystyr ansawdd. (Pense a Moss, 1994). At hyn, am nad oes ystyr glir am ansawdd, mae'n debygol bydd gan y rhandaliad safbwyntiau eang ar beth yw 'ansawdd'. (Cottle. A, Alexander, 2012). O achos hyn efallai nad yw ECERS yn ddibynadwy iawn ar fesur ansawdd oherwydd y dryswch o gwmpas ystyr ansawdd. Er hynny mae ECERS yn honni eu bod yn ddibynadwy ac yn ddilys ac felly'n effeithiol wrth ddadansoddi ansawdd a gwelliannau, gan ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol, rhyngweithio, cyffiniau, goruchwyliaeth a chwricwlwm. (UNC, dim dyddiad). Defnyddir yr ECERS/ECERS-R yn aml am ddibenion ymchwil neu fel offeryn hunanasesu i arwain ymdrechion gwella ansawdd dan arweiniad asiantaethau trwyddedu neu asiantaethau eraill. Yn bwysicach fyth, fe'i defnyddir yn aml mewn lleoliadau sydd â llawer o fudd megis Ansawdd Systemau Graddio a Gwella (QRIS). (Brunsek ., et al 2017).

Yn ôl y llawlyfr mae ECERS yn cymryd o leiaf 3 awr i gofnodi arsylwadau a sgôr. Ond mae cyfnod arsylwi o fwy na 3 awr yn cael ei ystyried yn well. (Community University Partnership, dim dyddiad). Maent yn arsylwi ystafell dosbarth a ddewiswyd ar hap am 3 awr ac yn defnyddio'r wybodaeth o'r arsylwad cyfan i sgorio pob eitem ar y raddfa. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r rhagdybiaeth yn arsylwi'r amgylchedd ffisegol yn ogystal â'r rhyngweithio rhwng aelodau staff a phlant. Ar gyfer unrhyw ddangosyddion na welwyd yn ystod yr arsylwad bydd yna gyfweiliadau byr wedi'i drefnu gyda'r athro i gasglu'r wybodaeth hon. (NYC Department Education, dim dyddiad). Mae ymchwil diweddar yn nodi bod offer sicrhau ansawdd fel ECERS yn aml yn canolbwyntio ar un agwedd o fewn lleoliadau addysg a gofal gan arwain at asesiad cyfyngedig o ddarpariaeth ansawdd. (Brunsek *et al.*, 2017). Prif ffocws yr ECERS yw'r amgylchedd dysgu, nid yw'n ystyried barn plant, o ran eu canfyddiadau o ansawdd y ddarpariaeth y maent yn ei derbyn neu'r sgôr asesu sy'n deillio o hynny. At hyn, yn ôl Comisiynydd Plant Cymru (2023) Erthygl 12- mae gennyti ti'r hawl i rywun wrando arnat ac i gael dy gymryd o ddifri. Felly i bwynt nad yw'n mesur ansawdd yn dda oherwydd nad yw hawliau plant yn cael eu cymryd mewn i ystyriaeth yn ystod yr arsylwad ac nad yw datblygiad y plentyn ar ganolbwynt, sy'n wahanol i'r Raddfa Leuven. (Vlachou, 2017).

Mae yna nifer o fuddion i ECERS, mae'n ffordd o wella ansawdd y lleoliad, nodi unrhyw anghenion hyfforddi, adnabod a dewis deunyddiau ac adnoddau, adnabod cryfderau a meysydd gwella'r lleoliad, herio mewn ffyrdd newydd, mae'n darparu hunanasesiad, darparu iaith gyffredin wrth geisio egluro a mesur ansawdd a helpu i ehangu eich sgiliau. (Childcare Aware, dim dyddiad). Oblegid hyn wrth i ymarferydd fod yn ymwybodol o'r pethau yma mae'n bosib creu lleoliad o ansawdd uchel. Mae lleoliadau o ansawdd uchel yn cael yr effaith fwyaf, mae'n galluogi plant i gyrraedd eu potensial llawn a'u cefnogi i gyrraedd lefelau datblygu da. Yn ogystal â lefel dda o ddatblygiad mae lleoliadau blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn caniatáu i blant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau eraill gan gynnwys, sgiliau cymdeithasol, annibyniaeth, lefelau disgwyledig o ymddygiad mewn amgylchedd ysgol, sgiliau cyfathrebu ac iaith, hyder a hunan-barch. (Kelly, 2016). Un cryfder o ddefnyddio ECERS yw mai'n rhoi cipolwg o ansawdd y lleoliad. Mewn geiriau eraill, mae'r mesurau'n rhoi syniad o beth yw lefel yr ansawdd mewn canolfan ar adeg benodol. (Early Years Newsletter, 2019). At hyn mae miloedd o ymarferwyr yn defnyddio'r graddfeydd mewn lleoliadau ar gyfer arsylwi

a myfyrio hunan arfarnu, fel rhan o gylch gwella ansawdd parhaus. (Linskey, 2012). Y cryfder i hyn yw bod lleoliadau o hyd yn gwella ac yn rhoi'r plentyn ymhlith yr holl broses. Fodd bynnag, efallai nad yw'n bosib i bob lleoliad cael amser i wneud ECERS yn barhaus o ganlyniad i ddim digon o staff neu dim digon o amser yn ystod y dydd. I hyn nad yw pob aelod o staff yn deall fel i ddefnyddio ECERS, o ganlyniad efallai maent yn sgorio eu hunan yn rhy uchel neu rhy isel. (Nursery World, 2012).

Yn debyg i ECERS, mae'r Raddfa Leuven yn offer datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n wahanol i ECERS oherwydd mae'r Raddfa Leuven yn mesur lles emosiynol a chyfranogiad plentyn. Yn ôl Learning Journals, (2023) mae'r syniad o lesiant emosiynol a chyfranogiad yn bwysig yn y blynyddoedd cynnar am ei fod yn diogelu datblygiad emosiynol plentyn tra annog ymgysylltiad ar gyfer datblygiad dysgu. Bydd hyn yn codi ansawdd lleoliad oherwydd mae'n hybu lles plant, adnabod unrhyw bryderon am eu les a rhoi camau yn lle i gadw plant yn ddiogel. (NSPCC, 2021). Mae Graddfa Leuven o lesiant emosiynol yn arf ymarferol gwych oherwydd ei fod yn rhoi lles emosiynol y plentyn yn gyntaf ac yn bennaf. (Learning Journals, 2023). Dawn amlwg bod ECERS yn gweld ansawdd yn wahanol am ei fod yn arsylwi'r amgylchedd dysgu nid y plant, gwêl y Raddfa Leuven bod ansawdd yn dod o'r plant a sut maen nhw'n teimlo yn y lleoliad. Bydd hyn yn codi ansawdd y lleoliad am ei fod yn cefnogi Erthygl 12- mae gennyt ti'r hawl i rywun wrando arnat ac i gael dy gymryd o ddifri. (Comisiynydd Plant Cymru, 2023). Y cryfder o'r Raddfa Leuven yw'r ffaith mae'n cefnogi hawliau plant, mae'n rhoi'r plentyn yn ganol eu dysgu. Mae lles yn cyfeirio at fod yn ddigymell, yn teimlo'n gartrefol ac yn rhydd o ansicrwydd emosiynol sy'n hanfodol i hybu iechyd meddwl. Mae lles yn cyfateb i hunanhyder, lefel uwch o wytnwch a hunan-barch. Mae plant cyfforddus yn awyddus ac yn hyderus i archwilio ac arbrofi ac mae hyn yn codi ansawdd. (Structural Learning, 2023).

Mae'r Raddfa Leuven yn raddfa 5 pwynt sy'n galluogi arbenigwyr gofal plant, ymarferwyr meithrin ac athrawon i fesur lles emosiynol a chyfranogiad plentyn. (Learning Journals, 2023). Mae'r gwerthusiad yn dechrau gydag asesu lefelau lles a chyfranogiad gan ddefnyddio'r tablau. Mae'r weithdrefn yn syml a gellir ei chymharu â sganio. Bydd y plant yn cael ei arsylwi yn unigol neu fel grŵp am tua 2 funud yna byddant nhw yn rhoi sgôr ar gyfer lles a/neu gyfranogiad gan ddefnyddio'r raddfa 5 pwynt. (East Sussex County Council, dim dyddiad). Fodd bynnag, dim ond 2 munud maent yn arsylwi'r plentyn unigol, mae'n bosib o fewn yr amser hwnnw na fydd yr

ymarferydd yn cael cipolwg clir ar les neu fewnbwn y plant. Mae'n afrealistig awgrymu bydd plant yn gweithredu ar lefelau 4 neu 5 drwy'r dydd gan fydd y lefelau'n amrywio trwy'r dydd. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol arsylwi pa mor dda y mae ymarferwyr yn tiwnio i mewn i lefelau lles ac ymglymiad y plant a sut mae'n ymateb i lefelau isel yn sensitif. Gall hyd yn oed lefel isel o les neu gyfranogiad ddod yn gyfle dysgu a all arwain at lefelau uwch. (East Sussex County Council, dim dyddiad).

Ond un o'r prif feirniadaethau Graddfa Leuven nad yw'n cyfrif yn dda i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau. Yn aml, nad yw'r ymddygiadau a ddisgrifir ar y raddfa yn bresennol neu ddim mor amlwg yn blentyn a ADY, yn enwedig plant sydd ddim yn eiriol. (Mcrae a Jones, 2023). At hyn, os nad yw'r raddfa yn gallu mesur pob plentyn yn effeithiol nad yw'r raddfa yn gynhwysol i bawb. Fel dywed Ferdman (2020) mae ansawdd yn dod o'r teimlad o berthyn a bod yn gynhwysol i bawb. Serch hynny, nad yw'r raddfa yn effeithiol i bob plentyn. Felly i raddau nad yw'r raddfa yma yn gefnogol o Erthygl 2, dylai plant cael eu trin yn deg. (Comisiynydd Plant Cymru, 2023). O ganlyniad nad yw lleoliadau yn cael mesur dibanadwy o fewnbwn a lles plant a ADY.

Y buddion i Raddfa Leuven yw'r ffaith bod nhw'n arsylwi'r plant. Yn ôl Learning Journals (2023) arsylwi yw'r dull mwyaf effeithiol o ddatblygiad blynyddoedd cynnar. Yn ogystal mae'n bosib i ymarferydd deall anghenion pob plentyn i ddylunio gweithgareddau a lleoliadau sydd yn addas. (West Sussex County Council, 2015). Mae lefel lles plentyn yn gysylltiedig â lefelau ymwneud a chymhelliant i ddysgu. Mae cyfranogiad yn cydberthyn a'r tair nodwedd o addysgu a dysgu effeithiol yn y blynyddoedd cynnar sef chwarae ac archwilio, dysgu gweithredol a chreu a meddwl yn feirniadol. (Leicestershire County Council, dim dyddiad). Felly i raddau mae'r Raddfa Leuven yn gyrru ansawdd am ei fod yn rhoi'r plentyn ar ganolbwynt eu datblygiad. Sy'n cyferbynnu a ECERS am fod ymchwil o gwmpas y ffaith mae'n methu mesur rhyngweithio rhwng yr athro, plant a theuluoedd sy'n cael eu hystyried fel ffactorau ansawdd allweddol mewn gofal plant. (Bisceglia, Perlman, Schaack, & Jenkins, 2009; Helmerhorst et al., 2014).

Agwedd lawn mor bwysig yw beth mae ymarferydd yn gwneud efo eu darganfyddiadau. Wrth arsylwi'r plant mae'n bosib sylwi pa weithgareddau mae'r plentyn yn gwneud yn ystod pob arsylwad. Gellir gweld pa weithgareddau maent â

diddordeb yn. Yna mae'n bosib anelu at ddarparu mwy o weithgareddau iddynt sy'n bodloni eu diddordebau a buddsoddi mewn teganau addas. At hyn wrth fesur eu lles gellir nodi ffurfiau gwahanol o gefnogi'r plentyn i wella eu cyflwr emosiynol yn ystod eu gofal a phan fydd adref. (Kids Club HQ, 2022). Yn debyg i'r Raddfa Leuven mae ECERS yn darparu camau pendant tuag at wella eu hamgylchedd. (Nursery World, 2012). Fodd bynnag, gall hyn arwain at broblemau os nad yw'r lleoliadau a digon o gyllid i allu gwella'r ansawdd felly o achos nad yw lleoliadau yn gwella eu hansawdd i safon uwch (Welsh Government, 2020).

Yn y dadansoddiad terfynol dawn amlwg bod yr offer datblygiad proffesiynol ECERS a Graddfa Leuven yn ddulliau effeithiol o ran gwella profiadau o ansawdd a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Gellid mynd mor bell a dweud os bydd lleoliadau yn defnyddio'r ddau bydden gwmpasu pob agwedd o ansawdd. Er hynny, er mwyn yr offer cael eu defnyddio'n effeithiol, nodir Nutbrown (2012) dylai staff bod yn cymwys. Mae staff cymwys uchel yn allweddol i ddarpariaeth o ansawdd uchel, awgryma dylai bod aelod o staff bod yn gymwys o leiaf i lefel 3.

Rhestr Cyfeirnod

Birth to 5 Matters (dim dyddiad) *Quality improvement and leadership*. Ar gael o:
<https://birthto5matters.org.uk/quality-improvement-and-leadership/> (Darllenwyd ar: 23 o Fawrth).

Bland, F. (2023) *Quality practice in early years*. Ar gael o:
<https://www.teachearlyyears.com/nursery-management/view/quality-practice-in-early-years> (Darllenwyd ar: 24 o Fawrth).

Brunsek., et al (2017) *The Relationship Between The Early Childhood Enviromaent Rating Scale and its revised form and child outcomes: A Systematic review and mete-analysis*. Ar gael o: <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0178512> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Comisynydd Plant Cymru (2023) *UNCRC*. Ar gael o:
<https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/uncrc/> (Darllenwyd ar: 29 o Fawrth).

Cottle, M. A Alexander, E. (2011) *Quality in early years settings: government, research and practitioners perspectives*. Ar gael o:

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/01411926.2011.571661?needAccess=true&role=button> (Darllenwyd ar: 23 o Fawrth).

Department for Education (2021) *Study of early education and development (SEED); Developing alternative quality scales for early childhood education and care (ECEC) using exploratory analysis*. Ar gael o:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1029981/SEED_Quality_Analyses_Research_Brief.pdf (Darllenwyd ar: 27 o Fawrth).

Early Years Newsletter (2019) *ITERS and ECERS have been updated!* Ar gael o:

[https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fwww.coventry.gov.uk%2Fdownloads%2Ffile%2F30140%2F1 the environmental rating scales updates%23%3A~%3Atext%3DEarly%2520Childhood%2520Environment%2520Rating%2520Scale%2520%2520D%2520ECERS%26text%3DA%2520comprehensive%2520assessment%2520tool%2520that%20emotional%2520and%2520health%2520and%2520safety.&wdOrigin=BROWSELINK](https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fwww.coventry.gov.uk%2Fdownloads%2Ffile%2F30140%2F1%20the%20environmental%20rating%20scales%20updates%23%3A%20%3Atext%3DEarly%2520Childhood%2520Environment%2520Rating%2520Scale%2520%2520D%2520ECERS%26text%3DA%2520comprehensive%2520assessment%2520tool%2520that%20emotional%2520and%2520health%2520and%2520safety.&wdOrigin=BROWSELINK) (Darllenwyd ar: 20 o Fawrth).

Ecersuk. (dim dyddiad) *The Enviroment Rating Scales*. Ar gael o:

<http://www.ecersuk.org/2.html> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Education Policy Insistute (2018) *Early Years education: what does high-quality provision look like?* Ar gael o: <https://epi.org.uk/publications-and-research/early-years-high-quality-provision/> (Darllenwyd ar: 25 o Fawrth).

Emotionally Healthy Schools (2019) *The Leuven Scale*. Ar gael o:

<https://emotionallyhealthyschools.org/primary/the-leuven-scale/> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Fenech, M., et al (2010) *Identyfing high-quality centre-based childcare using quantitative data-sets: what the numbers do and don't tell us*. Ar gael o:

<https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/09669760.2010.531615?needAccess=true> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Foundation Years (dim dyddiad) *Quality improvement*. Ar gael o:

<https://foundationyears.org.uk/pedagogy-early-learning/quality-improvement/> (Darllenwyd ar: 26 o Fawrth).

Hofer, K G. (2010) *How measurement characteristics can affect ECERS-R score and program funding*. Ar gael o: <https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.2304/ciec.2010.11.2.175> (Darllenwyd ar: 27 o fawrth).

Kelly. (2016) *The importance of quality Early Years Settings*. Ar gael o:

<https://www.earlyyearscreers.com/eyc/learning-and-development/the-importance-of-quality-early-years-settings/> -
:~:text=Quality%20settings%20can%20reduce%20the,more%20financially%20well%20off%20backgrounds. (Darllenwyd ar: 25 o Fawrth).

Kids Club HQ (2022) *Leuven Scales Best Practices To Improve Engagement & Well-being*. Ar gael o:

<https://www.kidsclubhq.com/articles/leuven-scales-best-practices-to-improve-engagement-and-well-being/> -
:~:text=They%20are%20used%20by%20many,couple%20of%20minutes%20per%20child. (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Learning Journals (2023) *What is the Leuven scale and how to use it*. Ar gael o:

<https://learningjournals.co.uk/what-is-the-leuven-scale-and-how-to-use-it/> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Leicestershire County Council (dim dyddiad) *Well-being and involvement*. Ar gael o:

<http://resourcesdevupgrade.leicestershire.gov.uk/education-and-children/early-years/childcare-practice/personal-development-behaviour-and-welfare/well-being-and-involvement> -
:~:text=A%20child's%20level%20of%20well,and%20creating%20and%20thinking%20criticall y. (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Lles, R. (dim dyddiad) *Understanding The importance of High quality provision within early childhood education and care: An analysis of Qulaity Assurance Models*. Ar gael o:

<https://www.ecsdn.org/wp-content/uploads/2019/11/An-analysis-of-Quality-Assurance-models-RI.pdf> (Darllenwyd ar: 25 o Fawrth).

Llywodraeth Cymru (2013) *Building A Brighter Future*. Ar gael o:

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-bulding-brighter-future-en.pdf>

(Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

Macrae, C., A Jones, L. (2023) *A philosophical reflection on the "Leuven Scale" and young children's expressions of involvement*. Ar gael o:

<https://www.tandfonline.com/doi/epdf/10.1080/09518398.2020.1828650?needAccess=true&role=button> (Darllenwyd ar: 28 o Fawrth).

Munton, T., McCullum, B a Rivers, K. (2001) *Childcare Quality Improvement and Assurance Practice*. Ar gael o: <https://dera.ioe.ac.uk/4631/1/RR266.pdf> (Darllenwyd ar: 30 o Fawrth).

NSPCC (2021) *Promoting Mental Health and well-being*. Ar gael o:

<https://learning.nspcc.org.uk/child-health-development/promoting-mental-health-wellbeing> (Darllenwyd ar: 25 o Fawrth).

Nursery World (2012) *Quality assurance, Part 3: ECERS and ITERS assessment scales*. Ar gael o: <https://www.nurseryworld.co.uk/features/article/quality-assurance-part-3-ecers-and-iter-assessment-scales> (Darllenwyd ar: 23 o Fawrth).

Pense a Moss. (1994) *Getting beyond the problem with Quality*. Ar gael o:

https://www.researchgate.net/publication/249047106_Getting_beyond_the_problem_with_quality (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Peterson, G. A Elam, E. (2021) *Measuring High-Quality in Early Care and Education Classrooms*. Ar gael o:

[https://socialsci.libretexts.org/Bookshelves/Early_Childhood_Education/Book%3A_Observation_and_Assessment_in_Early_Childhood_Education_\(Peterson_and_Elam\)/02%3A_Quality_Counts/2.08%3A_Measuring_High-Quality_in_Early_Care_and_Education_Classrooms](https://socialsci.libretexts.org/Bookshelves/Early_Childhood_Education/Book%3A_Observation_and_Assessment_in_Early_Childhood_Education_(Peterson_and_Elam)/02%3A_Quality_Counts/2.08%3A_Measuring_High-Quality_in_Early_Care_and_Education_Classrooms) (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Structual Learning (2023) *Leuven Scale: Teachers Guide*. Ar gael o: <https://www.structural-learning.com/post/leuven-scale-a-teachers-guide>

[:~:text=The%20main%20advantage%20of%20the,effective%20early%20years%20teaching%20resources](https://www.structural-learning.com/post/leuven-scale-a-teachers-guide?text=The%20main%20advantage%20of%20the,effective%20early%20years%20teaching%20resources). (Darllenwyd ar: 25 o Fawrth).

UNC (dim dyddiad) *Environment Rating Scales*. Ar gael o: <https://ers.fpg.unc.edu/about-environment-rating-scales> (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Vlachou, M. (2017) *Listening to children: using the ECERS-R and mosaic approach to improve learning environments: a case study*. Ar gael o: [Listening to children: using the ECERS-R and Mosaic approach to improve learning environments: a case study: Early Child Development and Care: Vol 189, No 4 \(tandfonline.com\)](https://doi.org/10.1111/j.1469-7610.2017.02189.x) (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

Welsh Government (2020) *Early Years and Childcare providers judges inadequate or not complying with requirement at inspection*. Ar gael o: <https://www.gov.uk/guidance/early-years-and-childcare-providers-judged-inadequate-or-not-complying-with-requirements-at-inspection> (Darllenwyd ar: 31 o Fawrth).

West Sussex County Council (2015) *Effective Practice: Observation, Assessment and Planning*. Ar gael o: https://www.westsussex.gov.uk/media/5555/effective_poa_and_planning.pdf (Darllenwyd ar: 31 O Fawrth).